



# Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher  
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,  
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 ☎ 01443 219596

[gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk](mailto:gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk)

[www.gartholwg.co.uk](http://www.gartholwg.co.uk)

Gorffennaf, 2015

Annwyl Riant / Warcheidwad,

## 1. RHAI DYDDIADAU A THREFNIADAU PWYSIG DIWEDD A DECHRAU TYMOR

**Dydd Gwener 17 Gorffennaf** Ysgol yn gorffen i ddisgyblion a'r bysiau'n gadael safle'r ysgol am **1.00 y.p.** Os yw'ch plentyn angen cael ei oruchwyllo yn yr ysgol tan 3.00 y.p., cysylltwch â'r swyddfa i drefnu os gwelwch yn dda.

## 2. TREFNIADAU DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2015:

<b>Dydd Llun</b>	<b>31 Awst</b>	Gŵyl y Banc.
<b>Dydd Mawrth</b>	<b>1 Medi</b>	Diwrnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) <b>Ysgol ar gau i ddisgyblion.</b>
<b>Dydd Mercher</b>	<b>2 Medi</b>	<b>Pob blwyddyn</b> yn dychwelyd i'r ysgol. Blwyddyn 7 yn mynd i Langrannog am 9.30. Bysiau'n gadael y safle am 12.30 y.p.
<b>Dydd Iau</b>	<b>3 Medi</b>	<b>Bysiau'n gadael y safle</b> ar yr amser arferol.
<b>Dydd Gwener</b>	<b>4 Medi</b>	<b>Bysiau'n gadael y safle</b> ar yr amser arferol. <b>Blwyddyn 7 yn dychwelyd o Langrannog</b> erbyn 4.30 y.p.

## 3. Dechrau tymor

Ar ddechrau'r tymor ym mis Medi bydd Blwyddyn 7 yn mynd i Langrannog ar eu cwrs iaith a bydd gweddill yr ysgol yn cael cyflwyniad i waith y flwyddyn mewn sesiynau estynedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion flasu sgiliau bydd eu hangen arnynt ar gyfer y cam nesaf o'u rhaglen ddysgu. Bydd y rhaglen lawn ar wefan yr ysgol ar ddechrau'r tymor newydd.

## 4. 'PASS' BWS

Mae'r adran Trafnidiaeth Gartref Ysgol wedi ein hysbysu y bydd angen i ddisgyblion ddefnyddio eu 'pass' bws presennol ym mis Medi hefyd. Felly, mae angen ei gadw'n ddiogel ar gyfer dechrau'r tymor!

## 5. Arweinwyr Cynnydd

Blwyddyn 7	Ms Menna Lewis	Blwyddyn 8	Mrs Mairwen Price
Blwyddyn 9	Mr Dylan Hughes	Blwyddyn 10	Mr Aled Rogers
Blwyddyn 11	Ms Eleri Richards	Blwyddyn 12/13	Ms Menna Thomas

## 6. Ac yn gyffredinol . . .

A hithau'n tynnu tuag at ddiwedd y tymor, ga i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barod yn ystod y flwyddyn. Bu'n flwyddyn brysur, lwyddiannus a llawn ac ymfalchiwn yn llwyddiannau di-ri ein disgyblion a'n hathrawon brwd ac ymroddgar.

Ar ddiwedd y tymor hwn, byddwn yn ffarwelio gyda rhai aelodau o staff. Hoffwn ddymuno ymddeoliad hir a hapus i'r staff canlynol: Mrs. Carole Bryan-Jones Pennaeth yr Adran Hanes sy'n ymddeol ar ôl 10 blynedd; Mr Ellis Phillips, Pennaeth Dylunio a Thechnoleg sy'n ymddeol ar ôl 29 blynedd; Mr Elfed Charles, Pennaeth Cynorthwyol sydd hefyd yn ymddeol ar ôl 32 mlynedd o wasanaeth i'r ysgol a Mrs Jacky Griffiths, Rheolwraig Busnes yr ysgol sydd hefyd yn ein gadael ar ôl 27 blynedd. Yn ogystal, hoffwn ddymuno'r gorau i'r athrawon eraill sy'n ein gadael ni eleni:

Mr Gruffydd Jones  
Miss J Williams  
Mrs Gwenllian Rhys Roberts

Dymunwn y gorau iddynt yn y dyfodol.

Fel y gwyddoch, rwyf innau'n ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon. Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am yr holl gefnogaeth a dderbyniais dros fy nghyfnod yn yr ysgol. Mae hi wedi bod yn anrhydedd cael arwain yr ysgol arbennig hon ac yn fraint cael gweithio gyda staff ymroddedig a disgyblion gwych! Dymuniadau gorau i holl gymuned yr ysgol i'r dyfodol, ac yn arbennig i Mr Trystan Edwards, ein Pennaeth newydd.

Hoffwn ddymuno gwyliau hapus a diogel i chi a'ch teulu. Ymlaciwch a mwynhewch gyda'ch gilydd.

## ***Cofiwch hefyd . . . Canlyniadau Arholiadau!***

**SU ac UG:**

**Dydd Iau, 13 Awst**

**TGAU a chymwysterau  
cyfatebol**

**Dydd Iau, 20 Awst**

Yn gywir,

Mrs. Angela Williams  
Pennaeth